**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
https://senedd.cymru/pwyllgorau/pwyllgor-yr-economi-masnach-a-materion-gwledig/
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru,
a'r Trefnydd:

16 Rhagfyr 2022

Annwyl Weinidog

Fel y byddwch yn ymwybodol, cafodd y Bil Bwyd (Cymru) ei gyflwyno i'r Senedd gan Peter Fox AS ddydd Llun 12 Rhagfyr. Mae'r Bil wedi'i gyfeirio at ein Pwyllgor er mwyn cynnal gwaith craffu Cyfnod 1.

Fe'i gwnaethoch yn glir yn flaenorol nad yw Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r Bil. Yn ystod cwestiynau ar 25 Mai 2022 fe wnaethoch gyfeirio at y *Strategaeth Bwyd Cymunedol* fel cyfrwng i ddwyn cynigion a geir yn y Bil yn eu blaen:

> *… nid yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi Bil bwyd Peter Fox. Mae Peter a minnau wedi cyfarfod, ac mae Peter yn ymwybodol iawn o'r rhesymau pam nad ydym yn cefnogi'r Bil bwyd. Credaf y gallwn wneud llawer o awgrymiadau Peter, sy'n rhai da iawn, heb ddeddfwriaeth, a byddwn yn hapus iawn i barhau i weithio gydag ef a chyda Phlaid Cymru fel rhan o'r cytundeb cydweithio, gan fwrw ymlaen â'r strategaeth bwyd cymunedol, a fydd, yn fy marn i, yn cwmpasu llawer o'r cynigion ym Mil Peter Fox.*

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil yn nodi'r ymrwymiad hwn ac yn tynnu sylw at y ffaith mai ychydig o wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd am y *Strategaeth Bwyd Cymunedol*.

Nodwn y wybodaeth ar y Strategaeth a ddarparwyd yn eich papur i ni ym mis Mehefin 2022. Fodd bynnag, er mwyn i'r Pwyllgor a'n rhanddeiliaid feddu ar well dealltwriaeth o gynlluniau Llywodraeth Cymru yn y maes polisi hwn, er mwyn llywio'r gwaith craffu ar y Bil, byddem yn croesawu'r manylion diweddaraf am y *Strategaeth Bwyd Cymunedol* ac unrhyw waith datblygu polisi perthnasol arall.

Cofion cynnes

Paul Davies AS
Cadeirydd: Economy, Trade and Rural Affairs Committee

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in both Welsh and English.